# Cyngor Cymuned Tudweiliog

## Tudweiliog Community Council

Heulwen Williams
Clerc/clerk
01758 770415

Pen Cefn,
Dinas,
Pwllheli.
LL53 8UB.

Cofnodion Cyngor Cymuned Tudweiliog a gynhaliwyd ar Zoom nos Lun Gorffennaf 12ed 2021

Presennol: Henry Hughes, Siân Parri, Gareth Jones, Alan Hughes, John Davies, Chris Brady, Alyn Williams, Terry Huws

Ymddiheuriadau: Humphrey Williams

1. Cadeiriwyd gan Alan Hughes ac estynnodd groeso i bawb.
2. Materion yn codi o’r cofnodion:
   a. **Baw Ci cynyddol ar Barc Main Garnfadryn –** Dywedodd Henry Hughes fod sefyllfa’r baw ci yn gwella ar ôl gosod y bin.
   b. **Llainfatw –** Dywedodd Siân Parri nad oedd dim diweddariad au bod yn parhau i ddiwsgwyl ymateb.
   c. **Porthysgaden –** Deallwyd fod ymwelwyr yn parhau i fynd i’r safle i wersylla. Mae hyn yn broblem gynyddol drwy Gymru gyfan ac yn creu problemau mawr mewn sawl ardal. Awgrymwyd y dylid cael arwyddion mwy ym Mhorthysgaden.
   ch. **Diweddariad o hen geisiadau cynllunio –** Ni dderbyniwyd ymateb.
   dd. **Problem parcio ger Towyn Tudweiliog** - Anfonodd y Clerc ebost i’r adran Ffyrdd yn datgan pryderon ynglŷn a’r cerbydau sy’n parcio mewn mannau pasio ar y lon, a’r peryglon mae hyn yn achosi pe byddai argyfwng ac angen y gwasanaethau brys. Hyd yma ni chafwyd ymateb.

3. Gohebiaeth:

a. **Cais Cynllunio C21/0616/46/DT Tyddyn Sander,Tudweiliog**
Dim Sylw

b. **Cais Cynllunio C21/0644/46/DT Ty Hen, Llangwnnadl**
Dim Sylw

c. **Cais Cynllunio C21/0642/46/LL Towyn, Tudweiliog**
Dim Sylw i gais y sied – ond pryder fod safle'r sied bwriededig ar gae sy'n cael ei ddefnyddio i barcio ceir sy'n ymweld ar traeth a'r siop – fydd hyn felly yn golygu y bydd sefyllfa parcio ar y ffordd yn gwaethygu?

ch.**Cais Cynllunio C21/0636/46/DT Yr Hen Storfa,Pen y Graig**
Dim Sylw

**4. Unrhyw fater arall:**

a. Arolygiad Mewnol – Dywedodd y Clerc ei bod wedi derbyn adroddiad gyda thri argymhelliad, bydd y Clerc yn gweithio ar yr argymhellion dros y flwyddyn nesaf.

b.Cyfarfod mis Medi – Penderfynwyd y byddai'n dda o beth i'r Cyngor gyfarfod wyneb yn wyneb ym mis Medi, hyn yn ddibynnol ar amgylchiadau Covid wrth gwrs.

c. Pryder ynglŷn â'r bariau 'popup' sy'n codi yn yr ardal, ar effaith mae'r rhain y neu gael ar dafarndai lleol. Oes trethi a'r bariau o'r fath? Penderfynwyd gofyn i Seimon Glyn am arweiniad.

ch. Derbynwyd bryder fod alcohol yn cael ei werthu yn Tyddyn Isaf – bydd y Clerc yn ymwchilio i hyn.

d . Toiledau cyhoeddus Tudweiliog – Penderfynwyd edrych i fewn i'r posibilrwydd o'r Cyngor Cymuned gymeryd cyfrifoldeb y toiledau gan fod gwir angen y cyflusterau cyhoeddus. Deallwyd fod sawl Cyngor Cymuned wedi cymeryd y cyfrifoldeb yn eu hardaloedd, bydd y Clerc yn cysylltu â rhain yn ogystal â'r Adran Gwarchod y Cyhoedd Cyngor Gwynedd (Amanda Murray)

Cynhelir y cyfarfod nesaf Nos Lun 13eg Medi 2021
am 7.30yh